# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

# Y BIL MENTER A DIWYGIO RHEOLEIDDIO: DARPARIAETH I'W GWNEUD YN OFYNNOL I GYFLENWYR NWYDDAU A GWASANAETHAU ROI DATA ELECTRONIG I GWSMERIAID

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio ynghylch y gofyniad bod cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau yn darparu data cwsmeriaid i'r graddau y mae hyn yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ym mharagraff 1 uchod yn cael ei gyflwyno gan Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog ("RhS") Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad Cenedlaethol"). Caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n rhan o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

3. Cyflwynwyd y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio (y "Bil") gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 23 Mai 2012. Mae'r Bil i'w weld yn:

http://services.parliament.uk.bills/2012-13/enterpriseandregulatoryreform//documents.html

## Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ("BIS"). Ei brif ddiben yw annog twf hirdymor a symleiddio rheoleiddio, a'i nod yw:

- gweddnewid y system tribiwnlysoedd cyflogaeth, a thrawsnewid y sefyllfa o ran datrys anghydfod;
- gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran gorfodi cystadleuaeth a chystadleurwydd marchnadoedd, drwy gryfhau'r gyfundrefn a'i gwneud yn gyflymach ac yn fwy unffurf i fusnesau;

- pennu dibenion y Banc Buddsoddi Gwyrdd a sicrhau'i fod yn annibynnol;
- cryfhau'r fframwaith ar gyfer gosod tâl cyfarwyddwyr drwy gyflwyno pleidleisiau gorfodi;
- ymestyn y cynllun Awdurdodau Sylfaenol, lleihau baich archwilio ar fusnesau a chryfhau'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cymalau machlud ar reoleiddio;
- diddymu deddfwriaeth ddiangen, gan leihau'r baich ar fusnesau a dinasyddion.

5. Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

6. Mae darpariaethau perthnasol y Bil i'w gweld mewn cymal newydd i'w ychwanegu ar ôl Cymal 73 ac yn ymwneud â "Cyflenwi data cwsmeriaid". Byddai'r darpariaethau newydd yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i "berson rheoleiddiedig" roi "data cwsmeriaid" i:

- gwsmer, ar gais y cwsmer;
- person a awdurdodir gan gwsmer i dderbyn y data, ar gais y cwsmer neu, os yw'r rheoliadau'n caniatáu hynny, ar gais y person awdurdodedig.

7. Ystyr "person rheoleiddiedig" yw person sydd, wrth gynnal busnes:

(a) yn cyflenwi nwy neu drydan i unrhyw eiddo;
(b) yn darparu gwasanaeth ffôn symudol;
(c) yn darparu gwasanaethau ariannol sy'n cynnwys darparu cyfleusterau cyfrif cyfredol neu gerdyn credyd; neu
(d) unrhyw berson sydd, wrth gynnal busnes, yn cyflenwi neu'n darparu nwyddau neu wasanaeth o fath a nodir yn y rheoliadau.

8. Ystyr "data cwsmeriaid" yw gwybodaeth:

(a) a gedwir ar ffurf electronig gan y person rheoleiddiedig neu ar ei ran;
(b) sy'n ymwneud â thrafodion rhwng y person rheoleiddiedig a'r cwsmer.

9. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i awdurdodi person rheoleiddiedig i godi tâl am gydymffurfio â cheisiadau am ddata cwsmeriaid. Mae'n rhaid i'r rheoliadau hynny ddarparu na fydd unrhyw dâl o'r fath yn uwch na chost cydymffurfio â'r cais.

10. At ddibenion y darpariaethau newydd, mae'r Bil yn diffinio "cwsmer" fel person sydd wedi prynu nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir gan y "person rheoleiddiedig", neu wedi'u cael am ddim, gan gynnwys trafodion busnes i fusnes. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Arloesi a Sgiliau y pŵer i'w

gwneud yn ofynnol i ddarparu data busnes i fusnes sy'n effeithio ar faes sy'n rhan o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

11. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 o Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â Datblygu Economaidd ym mharagraff 4, sef yn benodol hybu busnes a chystadleurwydd.

12. Gall y rheoliadau wneud darpariaeth i'r Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw berson arall a nodir yn y rheoliadau orfodi'r darpariaethau hyn.

## Y cyd-destun polisi

12. Lansiodd Llywodraeth y DU ei strategaeth grymuso defnyddwyr *'Better Choices Better Deals; Consumers Powering Growth'* ym mis Ebrill 2011. Nod y strategaeth yw rhoi mwy o bŵer i ddefnyddwyr. Un o brosiectau allweddol y strategaeth yw 'midata' sy'n ceisio'u gwneud yn haws i ddefnyddwyr reoli a chael at eu data personol er mwyn cael bargeinion gwell i'w hunain yn unigol ac ar y cyd.

13. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU *'midata 2012 review and consultation'* ar 27 Gorffennaf 2012. Mae'r papur yn amlinellu cynnig y Llywodraeth i greu gorchymyn i roi'r pŵer i'r Llywodraeth ei gwneud yn ofynnol i ddata trafodion gael ei gyhoeddi ar gais y cwsmer ar ffurf electronig y gall peiriant ei ddarllen.

14. Fel y nododd Llywodraeth y DU yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, bydd yn rhoi'r hawl i feicrofusnesau gael mynediad at eu data yn yr un ffordd â chwsmeriaid unigol. Nid yw'n bwriadu gosod dyletswydd ar feicrofusnesau i ddarparu gwybodaeth. Mae hyn yn cyd-fynd ag agwedd gyffredinol Llywodraeth y DU at reoleiddio. Fodd bynnag, bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd meicrofusnesau yn cael eu cynnwys mewn unrhyw reoliadau sy'n deillio o darpariaethau'r Bil newydd ar ôl ymgynghori ymhellach.

15. Caiff meicrofusnesau'u diffinio yn ôl y rheoliadau fel busnesau â llai na 10 o weithwyr ac sydd â throsiant a/neu fantolen sy'n llai na €2m.

16. Mae darparu gwybodaeth i unigolion a meicrofusnesau am eu trafodion yn eu galluogi i ddefnyddio cymwysiadau sy'n defnyddio neu'n dadansoddi data i ddod o hyd i fargeinion gwell, arbed arian neu ddod o hyd i wasanaethau sy'n fwy addas i'w hanghenion. Mae hyn yn ei dro yn helpu i greu marchnad fwy cystadleuol ar gyfer gwasanaethau.

17. Mae'r manteision yn ymestyn i'r defnyddwyr eu hunain a hefyd i economi'r DU oherwydd y dylai'r darpariaethau annog mwy o gystadleuaeth a

busnesau effeithlon. Dylai hyn eu galluogi i fanteisio ar farchnad gref a chynyddol am wasanaethau data gartref a thramor. Rhagwelir y bydd y farchnad hon werth biliynau o bunnoedd yn y dyfodol a'r nod yw gosod busnesau'r DU ar flaen y gad yn y maes hwn.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn**

18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ystyried a chymeradwyo'r darpariaethau yn y Bil DU hwn gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur ar gyfer cymhwyso'r darpariaethau i Gymru. Mae hefyd yn sicrhau bod y darpariaethau'n cael eu cymhwyso mewn ffordd gyson a chyfartal ledled y DU, gan ystyried cymhwysedd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Bydd yn sicrhau sefyllfa gyfartal i feicrofusnesau yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU. Bydd y darpariaethau'n galluogi busnesau cymwys i ofyn am ddata am eu trafodion electronig gan gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau.

**Goblygiadau ariannol**

19. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn sgil rhoi darpariaethau perthnasol y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio ar waith na ellir eu talu fel rhan o oblygiadau cyfredol.

**Edwina Hart AC**
**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**
**Ionawr 2013**